Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

18.12.23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol eto eleni. Mae cyfraniad ein disgyblion at fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan eu bod yn mynychu'n ddyddiol gyda chwrteisi, hiwmor a gwên! Maent yn destun balchder i ni gyd!

Gwych oedd gweld perfformiadau arbennig ein disgyblion ar lwyfan y neuadd yn ein sioe 'High School Musical'! Roedd eu gwaith caled a'u dyfalbarhad yn amlwg yn y mwynhad a welwyd ganddynt ym mhob perfformiad. Diolch i bob rhiant, perthynas a ffrind a ddaeth i gefnogi'r disgyblion i'w wneud yn brofiad bythgofiadwy iddynt!

Er y dathlu a'r llwyddiannau, mae wedi bod yn dymor anodd tu hwnt wrth i ni fel ysgol ddygymod â cholli Emily Williams, un o ddisgyblion annwyl ein 6ed Dosbarth. Rydym wedi ein hysbrydoli gan deulu Emily ac hefyd gan y modd y mae ein disgyblion wedi bod yn gefnogaeth i'w gilydd. Hoffwn ddiolch y benodol i staff tîm y 6ed am eu gofal a'u cefnogaeth arbennig hwy i'n disgyblion hefyd.

Mae disgyblion blynyddoedd 10-13eg bellach wedi derbyn naill ai eu **hadroddiadau interim neu llawn** a bydd disgyblion blynyddoedd 7-9 yn derbyn eu hadroddiadau yr wythnos hon. Rwy'n siŵr y bydd yr adroddiad yn gyfle i chi drafod cynnydd, ymdrechion ac agwedd eich plentyn at ei ddysgu ac hefyd yn gyfle i ddathlu dwi'n siŵr! Os ydych am drafod adroddiad eich plentyn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Diolch i bron pob disgybl a rhiant sydd yn ein cefnogi bob dydd i sicrhau safonau uchel o ddysgu, wedi eu selio ar safonau ymddygiad ac ymrwymiad uchel at yr ysgol. Mae'n bleser i gydweithio gyda'ch plant bob dydd. Wrth i ni edrych ymlaen at y tymor newydd, ga i fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo ein disgwyliadau ar gyfer ein gwisg ysgol a'r polisi ffonau symudol. Gwiriwch y dolenni isod am wybodaeth lawn:
Polisi Gwisg: Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Polisi Ffonau Symudol: Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Gyda'r Nadolig yn brysur agosáu, byddwn yn **gorffen yn gynt ar ddydd Iau yr 21ain**, gyda bysiau'r ysgol yn gadael am 13:15 i gludo disgyblion adref. Cofiwch hefyd am y diwrnod HMS ar ddydd Gwener yr 22ain.

Byddwn yn **ail agor i bob disgybl ar ôl y gwyliau ar ddydd Llun y 08.01.24**. Edrychwn ymlaen at groesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol ar gyfer tymor prysur iawn unwaith eto.

Ga i ddymuno Nadolig Llawen a diogel i chi a Blwyddyn Newydd yn llawn gobaith a llwyddiant!

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth: Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales